

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026. Rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.

Huw Irranca-Davies AS

Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

17 Rhagfyr 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ("ETS y DU") gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y DU, i annog y sectorau pŵer, diwydiant a hedfan i leihau allyriadau mewn modd cost effeithiol. Cafodd ei ddylunio ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, y DU, yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd hefyd, gyda'i gilydd, yn gweithredu ETS y DU ar ffurf Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"). Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau yng Nghymru.

1.2 Yn 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod ynghylch "Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim". Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad arall yn 2024 ynghylch "Dadleoli Carbon". Cafodd y penderfyniadau polisi terfynol yn Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriadau hyn eu datblygu'n unol â chyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd Mekanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU (CBAM y DU) yn cael ei gyflwyno yn 2027. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cytundeb rhwng y DU a'r UE i weithio tuag at gysylltu ETS y DU ac ETS yr UE.

1.3 Mae'r diwygiadau arfaethedig sydd i'w gwneud i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026 yn ymgorffori'r rhain yn neddfwriaeth y Cynllun Masnachu Allyriadau ar sail y 4 cenedl.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Gan y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i graffu seneddol gan y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud neu ei osod yn ddwyieithog.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 yn nodi bod yn rhaid i gynllun Masnachu Allyriadau sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – gael ei sefydlu gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

3.2 Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fel hyn wedi'i ragnodi gan adran 48 o'r Ddeddf Newid Hinsawdd.

3.3 Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026 yn cynnwys darpariaethau a ddelir gan adran 48(3) y Ddeddf Newid Hinsawdd. Felly, mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn berthnasol.

3.4 Roedd y prif orchymyn wedi sefydlu ETS y DU i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2021. Mae'n rhedeg am ddeng mlynedd, a hynny wedi'i rannu'n ddau "gyfnod dyrannu" pum mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithfeydd diwydiannol, cynhyrchwyr ynni, a gweithredwyr cerbydau awyr ynni-ddwys fonitro ac adrodd ar eu hallyriadau, a chael ac ildio "lwfansau" sy'n gyfwerth â'u hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae terfyn ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Mae rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau yn rhad ac am ddim i helpu i liniaru dadleoli carbon¹, a chyhoeddir manylion hynny mewn tablau dyraniadau.

3.5 Mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r prif Orchymyn i weithredu newidiadau technegol sy'n gwella gweithrediad ETS y DU i gyfranogwyr a rheoleiddwyr. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor canlynol: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 (dirymu), Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2025.

3.6 Cafodd y prif Orchymyn a'r Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor diwygio hyn eu gwneud o dan adran 44 o'r Ddeddf Newid Hinsawdd. Mae'r Gorchymyn diwygio hefyd yn cael ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

3.7 Mae diwygiadau wedi cael eu gwneud hefyd i ETS y DU drwy is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 2020. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr atodiadau canlynol: Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Phlatformau Arwerthu Cydnabyddedig (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021, a Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1 Wrth i ETS y DU aeddfedu, mae'r Awdurdod wedi bod yn ystyried gwella'r modd y mae'n gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn offeryn cadarn, teg ac effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth

¹Dadleoli carbon yw symud allyriadau cynhyrchu a'r allyriadau cysylltiedig o un wlad i'r llall oherwydd lefelau gwahanol o ymdrech datgarboneiddio drwy brisio carbon a rheoleiddio'r hinsawdd.

liniaru'r risg o ddadleoli carbon yn achos diwydiannau ledled y DU. Roedd ymgynghoriad "Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim" 2023 ac ymgynghoriad "Dadleoli Carbon" 2024 wedi cynnig diwygiadau o ran dyrannu lwfansau am ddim.

4.2 Mae Ymateb yr Awdurdod a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2025 yn nodi safle'r Awdurdod o ran y digwyddiadau yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

4.3 Mae'r Gorchymyn diwygio hwn yn gweithredu nifer o newidiadau technegol i'r cyfrifiad dyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf o 2027, a hefyd yn galluogi diwygiadau pellach sy'n cyd-fynd â chyflwyno CBAM y DU (sy'n cwmpasu'r sectorau sment, gwrteithiau, haearn a dur, alwminiwm a hydrogen) yn 2027.

4.4 Yn benodol, diben y Gorchymyn diwygio yw diwygio'r prif Orchymyn a'r deddfwriaethau cysylltiedig er mwyn:

4.4.1 Galluogi gweithredwyr i ddewis cael data gweithgarwch ar gyfer 2020, neu ar gyfer 2020 a 2021, wedi'u heithrio at ddibenion pennu'r gymhariaeth hanesyddol ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030. Y prif nod yw lliniaru effaith pandemig COVID-19 ar gymariaethau hanesyddol ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030.

4.4.2 Cadw meincnodau dyraniadau am ddim cyfredol ETS yr UE a ddefnyddir yn y cyfrifiad dyraniadau am ddim ar gyfer blwyddyn 2027 y cynllun, a mabwysiadu gwerthoedd meincnod mwyaf diweddar ETS yr UE ar gyfer blynnyddoedd 2028, 2029 a 2030 cyfnod dyrannu 2027-2030, er mwyn parhau i wobrwyo gweithfeydd effeithlon a chymell datgarboneiddio.

4.4.3 Ei gwneud yn bosibl dileu dyraniadau am ddim yn raddol i sectorau sy'n dod o dan CBAM y DU yn ystod y cyfnod 2027-2030.

4.4.4 Egluro'r gofynion adrodd blynnyddol sy'n berthnasol i weithfeydd sy'n cael dyraniad am ddim ac sy'n penderfynu rhoi'r gorau i'w gweithgarwch yn barhaol.

4.5 Cwmpas tiriogaethol y Gorchymyn hwn yw'r Deyrnas Unedig gyfan.

4.6 Crynhoir y prif newidiadau isod:

Newidiadau i'r prif Orchymyn

4.7 Mae **Erthygl 5** y Gorchymyn diwygio yn cynnwys gofyniad i niferoedd terfynol y lwfansau a ddyrennir ar gyfer 2027-2030 gael eu hailgyfrif cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a bod y gronfa wrth gefn hyblyg yn cael ei diweddarau ar sail y cyfrifiad hwn.

4.8 Mae **Erthygl 6** y Gorchymyn diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddiweddarau'r tabl dyraniadau ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030 cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn sgil cymeradwyo nifer terfynol y lwfansau ar gyfer 2027-2030.

4.9 Mae **Erthygl 7** y Gorchymyn diwygio yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod ddiweddarau'r tabl dyraniadau o dan y prif Orchymyn lle mae Erthygl 16(15) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331² (y Rheoliad Dyraniadau Am Ddim, "FAR") yn berthnasol.

4.10 Mae **Erthygl 8** yn cynnwys gofyniad i'r tabl dyraniadau mwyaf diweddar gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael ei lunio, a, sut bynnag, cyn 1 Ionawr 2027 neu 1 Ionawr 2028 (yn dibynnu ar yr amgylchiadau).

4.11 Mae **Erthygl 9** y Gorchymyn diwygio yn cymhwyso'r newid o **Erthygl 7** i ddychwelyd lwfansau.

4.12 Mae **Erthygl 10** yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr gweithfa wneud cais i'r rheoleiddiwr amrywio'r caniatâd.

4.13 Mae **Erthygl 11** yn gosod gofynion ar reoleiddwyr lle nad yw'r meincnodau ar gyfer blynyddoedd 2028, 2029, 2030 y cynllun wedi cael eu mabwysiadu ar neu cyn 30 Medi 2026, a lle mae'n rhaid addasu nifer y lwfansau ar gyfer gweithfa o dan CBAM y DU.

Newidiadau i'r Rheoliad Dyraniadau Am Ddim (FAR) fel y mae'n berthnasol i gyfraith ddomestig

4.14 Mae **Erthygl 13** y Gorchymyn diwygio yn mewnosod diffiniad o "is-weithfa CBAM y DU" yn FAR Erthygl 2, ac yn diwygio Erthygl 2 i'w gwneud yn ofynnol i feincnodau 2027 gael eu defnyddio ar gyfer y cyfrifiad os nad yw meincnodau 2028, 2029 a 2030 yn cael eu mabwysiadu mewn pryd.

4.15 Mae **Erthygl 14** yn diwygio FAR Erthygl 4 i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr roi gwybod i reoleiddwyr yn ysgrifenedig pa rai o'u Gweithfeydd sy'n is-weithfeydd CBAM y DU a pha rai nad ydynt. Mae hefyd yn nodi sut y mae'n rhaid i weithredwr roi gwybod i'r rheoleiddwyr os ydynt am gael data gweithgarwch ar gyfer 2020, neu ar gyfer 2020 a 2021, wedi'u heithrio at ddibenion pennu'r gymhariaeth hanesyddol ar gyfer cyfnod dyrannu 2027-2030.

4.16 Mae **Erthygl 15** y Gorchymyn diwygio yn hepgor y geiriau "i'w gyflwyno" o'r gofyniad, a orfodir gan FAR Erthygl 6, ar y gweithredwr sy'n gwneud cais am neu sy'n cael dyraniad am ddim i fonitro data.

4.17 Mae **Erthygl 16** yn diwygio FAR Erthygl 9 i nodi lle y mae'n rhaid i gynlluniau methodoleg monitro gael eu haddasu i adlewyrchu meincnodau is-weithfeydd perthnasol.

² Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 ar 19 Rhagfyr 2018 sy'n pennu rheolau trosiannol ledled yr Undeb ar gyfer dyraniadau am ddim o lwfansau allyriadau wedi'u cysoni'n unol ag Erthygl 10a Cyfarwydddeb 2003/87/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor.

- 4.18 Mae **Erthygl 17** y Gorchymyn diwygio yn diwygio FAR Erthygl 10 i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr wahaniaethu'n glir a yw prosesau perthnasol is-weithfa yn gwasanaethu'r broses o gynhyrchu nwyddau CBAM y DU.
- 4.19 Mae **Erthygl 18** y Gorchymyn diwygio yn diwygio FAR Erthygl 15a i gymhwyso'r newidiadau o **Erthygl 14** i'r asesiad o geisiadau am ddyraniadau am ddim.
- 4.20 Mae **Erthygl 19** yn diwygio FAR Erthygl 16 i'w gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gyfrifo'r nifer blynyddol cychwynnol o ddyraniadau i weithfa ar gyfer blwyddyn 2027 y cynllun, lle nad oes meincnodau wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer 2028, 2029, a 2030, ar neu cyn 30 Medi 2026. Ni ddylid cyfrifo nifer blynyddol cychwynnol y lwfansau ar gyfer blynyddoedd 2028, 2029, a 2030 y cynllun yn gynharach na 1 Hydref 2027. Mae hefyd yn diwygio'r cyfrifiad i gyfrif am p'un a yw'r is-weithfa dan sylw yn is-weithfa CBAM y DU ai peidio.
- 4.21 Mae **Erthygl 20** yn diwygio FAR Erthygl 16a i nodi'r gofynion i'r Awdurdod wrth gyfrifo ffactorau lleihau traws-sector lle nad yw'r meincnodau ar gyfer blynyddoedd 2028, 2029, a 2030 y cynllun wedi cael eu mabwysiadu ar neu cyn 30 Medi 2026.
- 4.22 Mae **Erthygl 21** yn diwygio FAR Erthygl 16b i'w gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr, lle mae Erthygl 16(1)a yn berthnasol, gyfrifo (ac addasu, lle bo angen) y nifer terfynol o lwfansau ar gyfer blynyddoedd 2028, 2029, a 2030 y cynllun cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, a, lle mae Erthygl 16(15) yn berthnasol, gwneud yr un peth mewn perthynas ag is-weithfeydd CBAM y DU.
- 4.23 Mae **Erthygl 22** yn diwygio FAR Erthygl 18 i gymhwyso'r newidiadau o **Erthygl 19** i'r dyraniad cychwynnol i newydd-ddyfodiaid.
- 4.24 Mae **Erthygl 23** yn diwygio FAR Erthygl 18a i gymhwyso yn yr un modd y newidiadau o **Erthygl 21** i'r dyraniad terfynol i newydd-ddyfodiaid.
- 4.25 Mae **Erthygl 24** yn diwygio FAR Atodiad VI i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau methodolegau monitro ar gyfer cyfnod 2027-2030 nodi a yw'r is-weithfa yn un CBAM y DU.
- 4.26 Mae **Erthygl 25** yn diwygio FAR Atodiad VIII i gynnwys, yng ngholofn gwerth y meincnod yn Nhablau A, B a C, gyfeiriad at gyfnod dyrannu 2026 a blwyddyn 2027 y cynllun.
- 4.27 Mae **Erthygl 26** yn mewnosod FAR Atodiad 9 newydd sy'n nodi statws CBAM y DU ar gyfer sectorau lle mae proses yn gwasanaethu'r gwaith o gynhyrchu nwyddau CBAM y DU.

Newidiadau i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842³ (y Rheoliad Newidiadau yn y Lefelau Gweithgarwch, "ACLR") fel y caiff ei gymhwyso i gyfraith ddomestig

4.28 Mae **Erthygl 28** yn diwygio ALCR Erthygl 3 er mwyn diweddarau'r trefniadau adrodd i ddyddiadau'r cyfnod dyrannu newydd, gan gymhwyso'r gofyniad bod yn rhaid i'r adroddiad, yn 2027, gynnwys data ar gyfer y 2 flynedd cyn ei gyflwyno.

4.29 Mae **Erthygl 29** yn diwygio ALCR Erthygl 3a i'w gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr ystyried a yw is-weithfa'n un CBAM y DU wrth gyfrifo niferoedd cychwynnol a therfynol y lwfansau ar gyfer is-weithfeydd heb gymariaethau hanesyddol.

4.30 Mae **Erthygl 30** yn diwygio ALCR Erthygl 5 i fynnu addasiadau i ddyraniadau am ddim yn sgil newidiadau i lefelau gweithgarwch i gyfrif am p'un a yw is-weithfa yn un CBAM y DU ai peidio.

5. Ymgynghori

5.1 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 y Ddeddf Newid Hinsawdd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru fel "awdurdod cenedlaethol"⁴ gael, ac ystyried, cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd⁵ (adran 48(1)(a) CCA). Mae hefyd yn ofynnol iddynt, fel y maent yn ystyried yn briodol, ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn effeithio arnynt (adran 48(1)(b) CCA).

5.2 Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid drwy'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim (Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024)⁶ a'r Ymgynghoriad Dadleoli Carbon (Rhagfyr 2024 – Mawrth 2025)⁷. Cafodd Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriadau hyn ei rannu â rhanddeiliaid ar 26 Tachwedd 2025. Mae copi ar gael ar gais.

5.3 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ac mae wedi nodi ei fod yn fodlon i'r ddeddfwriaeth hon fynd yn ei blaen.

³Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 ar 31 Hydref 2019 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Cyfarwydddeb 2003/87/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran trefniadau pellach ar gyfer yr addasiadau i ddyraniadau am ddim o lwfansau allyriadau yn sgil newidiadau i lefelau gweithgarwch.

⁴ Gweler adran 47(3) o'r Ddeddf Newid Hinsawdd.

⁵ A elwir bellach y Pwyllgor Newid Hinsawdd

⁶ <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

⁷ <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage>

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) yn gweithredu ar lefel y DU, i annog y sectorau pŵer, diwydiant a hedfan i leihau allyriadau mewn modd cost effeithiol. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithfeydd diwydiannol, cynhyrchwyr ynni, a gweithredwyr cerbydau awyr ynni-ddwys fonitro ac adrodd ar eu hallyriadau, a chael ac ildio "lwfansau" sy'n gyfwerth â'u hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae terfyn ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Mae rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau yn rhad ac am ddim i helpu i liniaru dadleoli carbon

6.2 Caiff penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r ETS eu gwneud ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Cymru, yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd, gyda'i gilydd, yn gweithredu ETS y DU ar ffurf Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"). Ar gyfer y newidiadau hyn i ddyraniadau am ddim – yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim (FAR) – cwblhaodd yr Awdurdod asesiad effaith manwl yn arfarnu'r opsiynau ac yn modelu eu heffaith ledled y cynllun cyfan. Mae peth o'r gwaith modelu hwnnw'n ein galluogi i amcangyfrif effeithiau'r newidiadau yng Nghymru, a adlewyrchir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r arfarniad llawn o'r opsiynau a'r gwaith modelu manwl i'w gweld yn [asesiad effaith rheoleiddiol yr Awdurdod](#).

6.3 Dim ond ar sail dulliau gweithredu cyson ym mhob un o'r pedair cenedl y gall yr ETS weithredu, felly nid bwriad yr asesiad effaith rheoleiddiol yw arfarnu'r opsiynau gwahanol sydd ar gael neu amlinellu costau a manteision bod yn yr ETS, ond yn hytrach, ei fwriad yw amcangyfrif costau a manteision y newidiadau y cytunwyd arnynt gan bob un o'r pedair cenedl.

Opsiynau

6.4 Ers 2023, mae Awdurdod yr ETS wedi ymgynghori ynghylch ystod eang o gynigion ledled y fethodoleg dyraniadau am ddim. Mae ymateb yr Awdurdod a'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn cwmpasu'r meysydd eraill y ceisiwyd barn rhanddeiliad yn eu cylch, gan gynnwys:

- Diwygiadau i Newidiadau Lefelau Gweithgarwch (ALCs)
- Newidiadau i feincnodau
- Newidiadau i'r rhestr dadleoli carbon (CCL) a'r ffordd y cymhwysir y ffactor cysylltiad â dadleoli carbon (CLEF)
- Ystyriaeth o ba dechnolegau datgarboneiddio sydd ar gael
- Ystyriaeth o amodoldeb
- Cyflwyno prosesau i ddileu/leihau dyraniadau am ddim yn raddol i sectorau a gwmpesir gan Fecanwaith Addasu Ffiniau Carbon (CBAM) y DU.

Tabl 1: Eglurhad ar gyfer y meysydd dan ystyriaeth

Maes	Eglurhad
Diwygiadau i Newidiadau Lefelau Gweithgarwch (ALCs)	Yn cyfeirio at y modd y mae ETS y DU yn addasu faint o lwfansau am ddim y mae gweithfa yn eu cael os yw ei gweithgarwch (e.e. allbwn cynhyrchu) yn cynyddu neu'n gostwng yn sylweddol o gymharu â'i Lefelau Gweithgarwch Hanesyddol (HAL) h.y. llinell sylfaen hanesyddol. Mae'r rheolau'n gosod trothwyon o ran pryd a sut yr ysgogir y trothwyon hyn, gan geisio sicrhau bod dyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch go iawn ac yn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon.
Newidiadau i feincnodau	Mae meincnodau'n lefelau a argymhellir sy'n cynrychioli dwysedd allyriadau (e.e. tunelli CO ₂ fesul uned o gynnyrch) y gweithfeydd mwyaf effeithlon mewn sector. Mae diweddaru meincnodau'n golygu adolygu'r gwerthoedd hyn i adlewyrchu cynnydd technolegol a gwelliannau o ran effeithlonrwydd, gan sicrhau bod dyraniadau am ddim yn parhau i wobrwyo'r perfformwyr gorau a chymell datgarboneiddio.
Newidiadau i'r Rhestr Dadleoli Carbon (CCL) a'r Ffordd y Cymhwysir y Ffactor Cysylltiad â Dadleoli Carbon (CLEF)	Mae'r Rhestr Dadleoli Carbon yn nodi sectorau y mae risg y byddant yn adleoli eu cynhyrchiant y tu allan i'r DU oherwydd costau carbon. Mae'r CLEF yn pennu cyfran yr allyriadau a gwmpesir gan ddyraniadau am ddim ar gyfer pob sector. Mae'r newidiadau yn y maes hwn yn cynnwys diweddaru pa sectorau y mae yna risg y byddant yn adleoli, a faint o warchodaeth (drwy ddyraniadau am ddim) y maent yn ei chael, yn seiliedig ar ddata dwysedd allyriadau a masnach.
Ystyriaeth o ba Dechnolegau Datgarboneiddio sydd Ar Gael	Mae'r maes hwn yn archwilio a ddylai'r fethodoleg dyraniadau am ddim gyfrif am wahaniaethau mewn mynediad at dechnolegau datgarboneiddio ledled gweithfeydd neu sectorau, a sut y dylai wneud hynny. Y nod yw osgoi meincnodau neu reolau o ran dyraniadau sy'n cosbi gweithredwyr mewn modd annheg sydd heb fynediad at uwch dechnolegau, neu sy'n galluogi mabwysiadwyr cynnar i ystumio meincnodau'r sector.
Ystyriaeth o Amodoldeb	Mae amodoldeb yn cyfeirio at wneud y broses o gael dyraniadau am ddim yn ddibynnol ar weithredoedd neu ymddygiadau penodol, megis meddu ar gynllun datgarboneiddio neu dangos lleihad mewn allyriadau. Y syniad yw cymell datgarboneiddio ymhellach drwy gysylltu dyraniadau am ddim â gweithredu rhagweithiol ar y newid yn yr hinsawdd, yn hytrach na'u darparu'n seiliedig ar y risg o ddadleoli carbon yn unig.

Cyflwyno Prosesau i Ddileu/Leihau Dyraniadau Am Ddim yn Raddol i Sectorau a Gwmpesir gan CBAM y DU	Mae'r maes hwn yn cwmpasu prosesau i leihau dyraniadau am ddim yn raddol (eu dileu) i sectorau a fydd yn cael eu cwmpasu gan Fecanwaith Addasu Ffiniau Carbon (CBAM) y DU. Gan fod CBAM yn cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â dadleoli carbon ar gyfer mewnforion, mae'r angen am ddyraniadau am ddim fel ffordd o ddiogelu cynhyrchwyr domestig yn cael ei leihau, felly mae'r polisi hwn yn nodi sut a phryd y bydd dyraniadau am ddim yn cael eu lleihau neu eu dileu ar gyfer y sectorau hyn.
---	--

6.5 Mae pob opsiwn polisi unigol wedi cael ei asesu'n unol â set o ffactorau llwyddiant allweddol a'i ystyried yn drylwyr gan yr Awdurdod yn seiliedig ar ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n gwaith dadansoddi helaeth. Dewiswyd y ffactorau llwyddiant allweddol a ddefnyddir i asesu'r rhestr hir o opsiynau er mwyn sicrhau bod y FAR yn gallu darparu'n unol â'i amcanion, gan ystyried ffactorau ehangach.

Tabl 2: Y ffactorau llwyddiant allweddol a ddefnyddiwyd i asesu'r amrywiaeth lawn o opsiynau polisi

Ffactorau Llwyddiant Disgrifiad Allweddol	
Lliniaru dadleoli carbon	Nod dyraniadau am ddim yw lleihau'r risg o ddadleoli carbon – sef dadleoli allyriadau oherwydd polisiâu prisio carbon – gan gadw cymelliadau dros ddatgarboneiddio effeithiol ac allyriadau is. Rydym wedi asesu effaith pob penderfyniad polisi o ran pa mor dda y gallai fynd ati i lliniaru dadleoli carbon, gan gynnwys ym marchnad gartref y DU, marchnadoedd rhwngwladol lle y mae cynhyrchwyr y DU yn cystadlu (dadleoli allforion), buddsoddiadau, neu ddadleoli cynhyrchion ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi.
Effaith ar effeithiolrwydd ETS y DU	Bydd y cynllun yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig ar gyfer sicrhau proses bontio effeithlon yn economaidd i sero net. Mae prisio allyriadau mewn modd priodol yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn cymell datgarboneiddio ac arloesi gwyrdd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i fusnesau a gwmpesir gan ETS y DU benderfyni sut i ddatgarboneiddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'n gwneud hynny am y gost isaf posibl ledled y sectorau a gwmpesir gan y cynllun, gan ddarparu referniw i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys i gefnogi'r cyfnod pontio i sero net. ²
Dichonoldeb technegol	I ba raddau y gellir rhoi opsiynau ar waith yn gyson ac y gallant weithredu o fewn y rheolau a'r gofynion adrodd parhaus; a ydynt yn ychwanegu cymhlethdod neu heriau

	neu a ydynt yn alinio â'r broses o weithredu ETS y DU, dyraniadau am ddim, y broses o weithredu CBAM y DU; ac a oes risgiau i unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
Fforddiadwyedd ac Effaith gyllidol	Rydym yn ystyried effaith yr opsiynau ar fforddiadwyedd y Llywodraeth. Gallai'r opsiynau gael effaith ar gyllid y Llywodraeth drwy'r sianel dyraniadau am ddim (wrth i lai o lwfansau gael eu rhoi gan y Llywodraeth i weithredwyr, yn dibynnu ar yr opsiwn addasu) a sianel CBAM y DU (mae lleihad cyflymach mewn dyraniadau am ddim yn lleihau'r Gyfradd Gymorth ar gyfer dyraniadau am ddim, gan gynyddu cyfradd CBAM y DU a'r refeniw posibl o CBAM y DU).
Effeithiau eraill	Ystyriaethau eraill o ran cyfleoedd a risgiau, neu ganlyniadau anfwriadol posibl i ETS y DU neu bolisiâu ehangach.

6.6 Yn dilyn yr asesiad ansoddol yn seiliedig ar y meini prawf uchod, cafodd yr opsiynau naill ai eu gwrthod ar gyfer ystyriaeth bellach, neu eu rhoi ar restr fer i'w dadansoddi ymhellach, a'u cyfuno â'r opsiynau eraill a oedd yn weddill i greu cyfres o becynnau polisi. Mae'r holl becynnau wedi cael eu dylunio i alinio â themâu penodol, a chytunwyd arnynt yn fewnol â'r Awdurdod.

6.7 Fel y nodwyd yn Ymateb yr Awdurdod, mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am effaith COVID-19 ar weithgarwch yn 2020 a 2021, a oedd wedi gwro eu lefelau gweithgarwch hanesyddol ac wedi gwneud dyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod rhwng 2027 a 2030 yn anghynrychioliadol o weithgarwch arferol. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, bydd yr Awdurdod yn caniatáu i weithredwyr ddewis eithrio gweithgarwch 2020 a 2021 o gyfartaledd lefelau gweithgarwch hanesyddol 2019-2023. Mae'r safbwynt polisi hwn yn berthnasol i bob pecyn polisi ar y rhestr fer (gweler *lliniaru COVID (yr opsiwn i eithrio 2020 a 2021)*)

6.8 Mae'r opsiynau ar y rhestr fer wedi'u hamlinellu isod, i gael rhagor o fanylion am y rhestr hir gweler [Asesiad Effaith yr Awdurdod](#).

Tabl 3: Pecynnau polisi ar y rhestr fer a ddygwyd ymlaen ar gyfer dadansoddiad meintioledig pellach

Pecyn					
A	B	C	D	E	F
Diwygiadau i Newidiadau Lefelau Gweithgarwch	Lliniaru COVID ar gyfer cyfrifo lefelau gweithgarwch hanesyddol				

(ALCs)						
Newidiadau i feincnodau	Meincnodau UE wedi'u diweddarau ³					Meincnodau UE wedi'u diweddarau o 2028 ⁴
Newidiadau i'r rhestr dadleoli carbon (CCL) a'r ffordd y cymhwysir y ffactor cysylltiad dadleoli carbon (CLEF)	CLL gyfredol, dileu dim-CL yn raddol yn gynnar o '27	CLL gyfredol, dim dileu dim-CL yn raddol yn gynnar o '27	CLL gyfredol, dim dileu dim-CL yn raddol yn gynnar o '27	CLL gyfredol, dileu dim-CL yn gynnar o '27	CLL gyfredol, dim dileu dim-CL yn raddol yn gynnar o '27	CLL gyfredol, dim dileu dim-CL yn raddol yn gynnar o '27
Ystyriaeth o fynediad at dechnolegau datgarboneiddio	Dim ystyriaeth					
Ystyriaeth o amodoldeb	Lleihad o 20% i'r rhai o fewn 80fed canradd yr UE	Dim amodoldeb	Lleihad o 20% i'r rhai o fewn 80fed canradd yr UE	Dim amodoldeb	Dim amodoldeb	Dim amodoldeb
Cyflwyno prosesau i ddileu/leihau dyraniadau am ddim yn raddol i CBAM	Dileu'n gyflym	Oedi wrth ddileu	Dileu'n raddol yn gydnaws â'r UE, blwyddyn o oedi	Dileu'n raddol yn gydnaws â'r UE, blwyddyn o oedi	Dileu'n raddol yn gydnaws â'r UE, blwyddyn o oedi	Dileu'n raddol yn gydnaws â'r UE, blwyddyn o oedi

6.9 Dewiswyd y cyfuniadau hyn o becynnau i alinio â themâu, ac mae yna resymeg sylfaenol glir dros bob un:

- Pecyn A: Y rheswm sylfaenol dros ddarparu dyraniadau am ddim yw lliniaru'r risg o ddadleoli carbon, ac felly, dylid tynnu'r hawlogaeth honno oddi ar y sectorau hynny nad ydynt yn wynebu risg cyn gynted â phosibl. Ystyrir mai'r senario hon yw'r mwyaf uchelgeisiol.
- Pecyn B: Darperir dyraniadau am ddim i liniaru'r risg o ddadleoli carbon, ni waeth beth fo maint y risg honno, felly dylid eu cadw ar gyfer cynifer o sectorau â phosibl cyhyd ag y bo modd. Ystyrir mai'r senario hon yw'r

lleiaf uchelgeisiol.

- c. Pecyn C: Symud tuag at aliniad agosach â pholisi dyraniadau am ddim ETS yr UE gan roi ystyriaeth ddyledus i negodiadau cysylltu y DU-yr UE.⁵
- d. Pecyn D: Yn debyg i becyn C, heb gyflwyno hyblygrwydd, gan gydnabod y baich gweinyddol uchel ar reoleiddwyr, ond gyda phroses dileu cynnar i sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon.
- e. Pecyn E: Senario rhwng C a D, ond heb na phroses cyflwyno amodoldeb na phroses dileu'n gynnar i sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon.
- f. Pecyn F: Opsiwn sy'n efelychu Pecyn E ond sy'n adlewyrchu'r ffaith na fydd meincnodau'r UE wedi'u cyhoeddi adeg gwneud penderfyniadau terfynol o ran FAR, ac felly rydym yn cymryd bod meincnodau'r UE yn cael eu gweithredu o 2028 a bod y meincnodau cyfredol yn cael eu cadw ar gyfer 2027. **Hwn yw'r opsiwn a ffefir.**

6.10 Yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, gwnaed arfarniad economaidd llawn o bob pecyn, cyflwynir canlyniadau Cymru yn yr adran ganlynol.

Costau a manteision

6.11 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r dull gweithredu dadansoddol a ddefnyddiwyd i asesu'r opsiynau polisi terfynol – Pecynnau A-F a amlinellir uchod. Gellir dod o hyd i eglurhad manwl o'r dulliau modelu a chanlyniadau llawn yn [Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Awdurdod](#).

6.12 Mae mwyafrif y penderfyniadau o ran FAR yn ymwneud â'r polisi dyraniadau am ddim yn yr ail gyfnod dyrannu, o 2027 tan 2030. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad i ddileu dyraniadau am ddim yn raddol i sectorau CBAM y DU yn ymestyn y tu hwnt i 2030 tan 2037 o leiaf.

6.13 Yn ogystal, wrth i fusnesau addasu i lefel newydd o ddyraniadau am ddim, mae'r arfer o fuddsoddi mewn technolegau carbon isel i leihau cysylltiad â chostau carbon, ynghyd â manteision a chostau, yn debygol o ymestyn ymhell y tu hwnt i 2030, wrth i ni symud ymlaen drwy ein targedau cyfreithiol rwymol ar dargedau carbon a thuag at sero net erbyn 2050.

6.14 Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, mae angen llunio tybiaethau enghreifftiol o bolisi ETS y DU ar ôl 2030, gan alluogi'r asesiad i gyflawni cyfnod arfarnu priodol, a diffiniwyd fel 12 mlynedd. Mae'r effeithiau'n cael eu hasesu'n unol â phrisiau 2025 a rhoddir disgownt o 3.5% i effeithiau yn y dyfodol. Rydym yn nodi y bydd polisi ETS y DU ar ôl 2030 yn ddarostyngedig i ymgynghoriadau yn y dyfodol. **Ni ddylid trin y tybiaethau a wnaed at ddibenion yr asesiad hwn fel arwydd o'r cyfeiriad polisi tebygol.**

Gwrthffeithiol

6.15 I asesu effaith y safbwynt polisi terfynol, rydym wedi diffinio opsiwn polisi 'gwneud y lleiafswm'. Yn absenoldeb y FAR, mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn nodi bod y broses o ddosbarthu dyraniadau am ddim o dan y polisi cyfredol o'r cyfnod dyrannu cyntaf yn parhau. Felly, rydym yn cymryd nad oes unrhyw newid i feincnodau na'r ffactor cysylltiad â dadleoli carbon. Fodd bynnag, rydym yn diweddarau'r lefelau gweithgarwch hanesyddol i adlewyrchu gweithgarwch o'r cyfnod 2019-2023.

6.16 Yn yr un modd â'r polisi dyraniadau am ddim cyfredol, os yw cyfanswm nifer y dyraniadau am ddim cychwynnol yn uwch na'r cap ar ddiwydiant (IC) ac nad oes lwfansau digonol yn y gronfa wrth gefn hyblyg, ysgogir y Ffactor Cywiro Trawstoriadol (CSCF), sy'n lleihau nifer y dyraniadau am ddim a ddosberthir yn ôl cyfran gymharol nes y cyflawnir y cap ar ddiwydiant. Mae hyn yn llawer mwy tebygol os yw'r dyraniadau am ddim yn aros yn gyson ym mhob blwyddyn, wrth i'r cap ar ddiwydiant ostwng dros amser.

6.17 Felly, yn ein senario wrthffeithiol ganolog, o ystyried maint tybiedig y gronfa wrth gefn hyblyg erbyn 2030, rydym yn amcangyfrif y byddai Ffactor Cywiro Trawstoriadol (CSCF) yn cael ei ysgogi oddeutu 2037.

Canlyniadau'r dadansoddiad

6.18 Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn cynnwys effeithiau dyraniadau am ddim, effeithiau allyriadau, dadansoddiad cost a budd

Effeithiau Dyraniadau Am Ddim

6.19 Mae cyfuniad o opsiynau pob pecyn polisi yn arwain at lefel dyraniadau am ddim amcanestynedig wahanol, rhwng 2027 a 2030, fel y dangosir yn Nhabl 4; mae Tablau 5 a 6 yn dangos y gostyngiad mewn lwfansau am ddim mewn termau absoliwt ac o ran canran.

Tabl 4: Cyfanswm y dyraniadau am ddim ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu ym mhob senario

	Cyfanswm Dyraniadau Am Ddim y DU (miliynau)	Cyfanswm Dyraniadau Am Ddim Cymru (miliynau)
Y Cap Ar Ddiwydiant	89.5	DD/G
Pecyn A	70.0	8.9
Pecyn B	82.1	10.5
Pecyn C	80.9	10.3
Pecyn D	79.6	10.3
Pecyn E	81.3	10.3

Pecyn F	83.0	10.6
Gwrthffeithiol	91.4	11.9

Tabl 5: Cyfanswm y gostyngiad mewn dyraniadau am ddim ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu ym mhob senario

	Cyfanswm Dyraniadau Am Ddim y DU (miliynau)	Cyfanswm Dyraniadau Am Ddim Cymru (miliynau)
Pecyn A	21.5	3.1
Pecyn B	9.3	1.5
Pecyn C	10.6	1.6
Pecyn D	11.9	1.7
Pecyn E	10.1	1.6
Pecyn F	8.4	1.3

Tabl 6: Effaith ganrannol dyraniadau am ddim o dan bob pecyn, mewn perthynas â'r senario wrthffeithiol, ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu

	Y gostyngiad yng nghanran y dyraniadau am ddim yn y DU (%)	Y gostyngiad yng nghanran y dyraniadau am ddim yng Nghymru (%)
Pecyn A	31%	26%
Pecyn B	11%	12%
Pecyn C	13%	13%
Pecyn D	15%	14%
Pecyn E	12%	13%
Pecyn F	10%	11%

6.20 Pecyn polisi A sy'n cyflawni'r gostyngiad mwyaf mewn dyraniadau am ddim dros y cyfnod, a phecyn F sy'n arwain at y lleiaf. Mae'r oedi o ran

gweithredu meincnodau'r UE yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ostyngiad is pecyn F. Mae hyn yn wir ledled y DU ac o fewn Cymru.

6.21 Mae pecynnau C, D ac E yn arwain at lefelau dyraniadau am ddim amcanestynedig tebyg dros y cyfnod dyrannu, sy'n awgrymu bod ychwanegu amodoldeb neu ddileu dyraniadau am ddim o sectorau nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon yn cael effaith gyfyngedig o gymharu â gwahanol lwybrau dileu'n raddol i sectorau CBAM y DU. Mae hyn yn wir ledled y DU ac o fewn Cymru.

6.22 Dangosir gostyngiadau o ran dyraniadau am ddim i bob sector o dan bob senario ar gyfer y DU isod.

Tabl 7: Cyfanswm y gostyngiad mewn dyraniadau am ddim (miliynau) ar gyfer pob senario a sector, mewn perthynas â'r senario wrthffeithiol ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu (ledled y DU)

	Pecyn A	Pecyn B	Pecyn C	Pecyn D	Pecyn E	Pecyn F
Sment	-7.2	-1.7	-2.2	-2.2	-2.2	-2.1
Cemegion	-1.8	-1	-1.1	-1.1	-1.1	-0.9
Bwyd a diod	-0.6	-0.4	-0.4	-0.6	-0.4	-0.3
Haearn a dur	-5.1	-1.3	-1.8	-1.6	-1.6	-1.5
Metalau anfferrus	-0.2	-0.1	-0.1	-0.1	-0.1	-0.1
Mwynau anfetalaidd	-0.7	-0.4	-0.5	-0.5	-0.4	-0.3
Arall	-2.2	-0.9	-0.9	-2.2	-0.9	-0.6
Papur a mwydion	-0.2	-0.1	-0.2	-0.1	-0.1	-0.1
Puro	-3.4	-3.4	-3.4	-3.4	-3.4	-2.6
Anniffiniedig	0	0	0	0	0	0

6.23 Amcangyfrifir y bydd y sectorau sy'n cael y lefelau uchaf o ddyraniadau am ddim yn gweld y gostyngiad absoliwt mwyaf o gymharu â'r senario wrthffeithiol.


6.24 Fodd bynnag, wrth ystyried newidiadau canrannol, mae'r effeithiau'n fwy cyson ar draws sectorau, a disgwylir i'r mwyafrif weld gostyngiad rhwng 5% a 20% mewn dyraniadau am ddim o dan becynnau polisi B, C, D, E, a F dros yr ail gyfnod dyrannu.

6.25 Yn achos y sectorau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan CBAM, llywir y

gwahaniaethau rhwng pecynnau polisi gan ddau ffactor: dileu dyraniadau am ddim yn raddol yn gynnar o 2027 i sectorau a dynnwyd oddi ar y rhestr dadleoli carbon, a chymhwyso amodoldeb. Yr eithriad i hyn yw Pecyn F, a llywir rhan o'r gwahaniaeth gan y broses o weithredu meincnodau newydd o 2028. Yn achos y sector puro, meincnodau newydd yw'r unig elfen sy'n llywio newidiadau i ddyraniadau am ddim. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod y diweddariadau i'r meincnoda'n cael yr effaith fwyaf ar ddyraniadau am ddim i sectorau y tu allan i gwmpas CBAM, mewn perthynas â'r senario wrthffeithiol.

6.26 Yn achos sectorau a gwmpesir gan CBAM, er bod diweddariadau i feincnodau hefyd yn cyfrannu at ostyngiadau o ran dyraniadau am ddim, mae'r broses o ddileu dyraniadau am ddim yn raddol yn dal i fod y prif symbylydd ar gyfer newid. Mae hyn yn arbennig o amlwg ym Mhecyn A o dan yr opsiwn dileu carlam, sy'n arwain at effaith anghymesur o fawr ar y sectorau hyn.

Ffigur 1: Effaith amcangyfrifedig absoliwt ac o ran canran y dyraniadau am ddim o dan bob pecyn ar gyfer pob sector, mewn perthynas â'r senario wrthffeithiol, ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu



6.27 Mae ffigur 1 yn dangos mai sectorau megis Haearn a Dur a Sment sydd â'r amrywiad mwyaf mewn effaith ar draws pecynnau, a bod Pecyn A yn

arwain at ostyngiad llawer mwy mewn dyraniadau am ddim yn y sectorau hyn nag unrhyw becyn arall. Mae'r sectorau hyn yn arbennig o arwyddocaol yng Nghymru.

Yr effaith ar allyriadau

6.28 Mae asesu cyfanswm lefel y dyraniadau am ddim yn rhoi gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â hyd a lled yr effaith ar liniaru dadleoli carbon ym mhob opsiwn. Gallai gwahaniaethau o ran gostyngiadau mewn dyraniadau am ddim rhwng sectorau arwain at oblygiadau gwahanol mewn perthynas â dadleoli carbon, hyd yn oed os yw cyfanswm lefel y dyraniadau am ddim mewn unrhyw ddwy senario yn debyg.

6.29 Bydd newidiadau mewn dyraniadau am ddim yn newid y modd y bydd y pris carbon yn effeithio ar gyfranogwyr. Gall hyn effeithio ar allyriadau mewn sawl ffordd:

- a. Cymell technolegau lleihau carbon, lleihau allyriadau domestig.
- b. Cymell pobl i adleoli cynhyrchiant nwyddau a ddefnyddir yn y gwledydd hyn, gan gynyddu allyriadau rhyngwladol. Cyfeirir at hyn fel mewnforydd dadleoli carbon
- c. Addasu cystadleurwydd cwmnïau y DU o ran marchnadoedd allforio, cymell pobl i adleoli cynhyrchiant nwyddau a gynhyrchwyd yn ddomestig yn flaenorol i wlad a chanddi ddwysedd allyriadau uwch o ran cynhyrchu. Cyfeirir at hyn fel dadleoli allforion.
- d. Newid cyfanswm lefel y cyflenwad o lwfansau i'r farchnad, codi prisiau carbon i holl gyfranogwyr ETS y DU, gan arwain at ostyngiadau mewn allyriadau drwy ymdrechion lleihau carbon gan sectorau nad ydynt yn gymwys i gael dyraniadau am ddim.

6.30 Mae'n debygol y bydd y cymelliadau hyn yn amrywio ar draws sectorau oherwydd argaeledd a chostau ymylol technolegau lleihau carbon a rôl polisïau lleihau dadleoli carbon eraill, megis CBAM y DU.

6.31 Er mwyn cael dirnadaeth feintiol o effeithiau posibl lleihau allyriadau diwydiannol domestig a newidiadau o ran allyriadau rhyngwladol sy'n deillio o ddefnydd y DU, mae'r dadansoddiad hwn o'r DU wedi defnyddio'r model Cystadleurwydd Diwydiannol a Dadleoli Carbon Rhyngwladol (ICICL), sy'n gwerthuso newidiadau mewn cymelliadau cyfranogwr, pan wynebir cystadleurwydd diwydiannol, ac yn amcangyfrif ymatebion y farchnad.

6.32 Yn wahanol i Effaith Dyraniadau Am Ddim, nid yw mor hawdd datgyfuno effeithiau allyriadau yn ôl cenedl.

Tabl 8: Newid canrannol amcangyfraniad mewn allyriadau ar gyfer cynhyrchiant domestig a mewnforyddion (ar gyfer defnydd y DU) wedi'i wahanu yn ôl sectorau CBAM a rhai nad ydynt yn CBAM dros yr ail gyfnod dyrannu

	Sectorau CBAM			Sectorau nad yw CBAM yn berthnasol iddynt		
	Cynhyrchu domestig	Mewnforion	Allforion (ac eithrio'r UE)	Cynhyrchu domestig	Mewnforion	Allforion (ac eithrio'r UE)
Pecyn A	-5.0%	-13.8%	-43.8%	-0.2%	0.1%	0.1%
Pecyn B	-1.2%	-4.9%	-13.7%	-0.2%	0.1%	~0.0%
Pecyn C	-1.5%	-5.9%	-16.7%	-0.2%	0.1%	~0.0%
Pecyn D	-1.4%	-5.7%	-16.2%	-0.2%	0.1%	0.1%
Pecyn E	-1.4%	-5.7%	-16.2%	-0.2%	0.1%	~0.0%
Pecyn F	-1.4%	-5.2%	-14.8%	-0.1%	~0.0%	~0.0%

6.33 Un goblygiad clir yw'r ffaith bod yr effaith yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng sectorau CBAM a rhai nad ydynt yn CBAM. Yn achos sectorau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan CBAM, maent fel arfer yn gweld naill ai gostyngiadau llai mewn dyraniadau am ddim, gan felly arwain at gynnydd mwy cyfyngedig o ran eu cysylltiad â phris carbon, neu fod costau cydymffurfiaeth yn cyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm y costau cynhyrchu. Heb gael polisi lliniaru dadleoli carbon arall ar waith, mae yna effaith gwrthweithiol o ran mwy o allyriadau mewnforio.

6.34 Yn achos sectorau CBAM, amcangyfrifir y bydd yr effaith yn fwy, yn negyddol yn gyffredinol ac yn sensitif i'r llwybr tybiedig o ran dileu dyraniadau am ddim. Er mwyn archwilio'r canlyniad hwn ymhellach, mae Tabl 9 yn darparu dadansoddiad manwl ar gyfer y sector Haearn a Dur a'r sector Sment, sef dau sector mawr a gwmpesir gan CBAM ac sydd â goblygiadau allyriadau gwahanol.

Tabl 9: Newid canrannol amcangyfraniad mewn allyriadau ar gyfer cynhyrchiant domestig a mewnforion (ar gyfer defnydd y DU) wedi'i wahanu yn ôl sectorau Haearn a Dur a Sment dros yr ail gyfnod dyrannu

	Haearn a dur			Sment		
	Cynhyrchu domestig	Mewnforion	Allforion (ac eithrio'r UE)	Cynhyrchu domestig	Mewnforion	Allforion (ac eithrio'r UE)
Pecyn A	-1.9%	-20.2%	-45.1%	-10.1%	52.4%	-30.5%
Pecyn B	-0.6%	-6.4%	-14.2%	-2.2%	5.0%	-6.4%

Pecyn C	-0.7%	-7.8%	-17.3%	-2.7%	6.8%	-8.1%
Pecyn D	-0.7%	-7.5%	-16.7%	-2.7%	6.8%	-8.1%
Pecyn E	-0.7%	-7.5%	-16.7%	-2.7%	6.8%	-8.1%
Pecyn F	-0.6%	-6.9%	-15.3%	-2.6%	5.7%	-7.7%

6.35 Mae hyn yn datgelu dirnadaeth bwysig o ran effeithiau allyriadau. Mae gan rai sectorau fynediad at ddigonedd o ddewisiadau eraill o ran mewnforyn nad ydynt, o bosibl, yn ddarostyngedig i gostau sylweddol mewn perthynas â CBAM y DU, oherwydd prisio carbon domestig, er enghraifft yn y sector Sment lle mae cyfran sylweddol o'r mewnforyn yn dod o'r UE. O ganlyniad, mae'r sector hwn yn sensitif i'r llwybr o ran dileu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM, ac amcangyfrifir y bydd Pecyn A yn cynyddu allyriadau mewnforyn yn sylweddol o dan y llwybr carlam. Fodd bynnag, gan fod mewnforyn yn y sector hwn yn cyfrif am gyfran fach o ddefnydd domestig, mae'r cynnydd absoliwt mewn allyriadau o fewnforyn yn dal i fod yn gymharol isel, er gwaetha'r cynnydd canrannol mawr i'r pecyn hwn.

6.36 Ar y llaw arall, yn y sector Haearn a Dur, amcangyfrifir y bydd allyriadau domestig ac allyriadau mewnforyn cysylltiedig â defnydd y DU yn gostwng ar draws pob senario. Llywir hyn yn bennaf gan y costau CBAM cymharol uchel a gymhwysir i ranbarthau prisio carbon isel, sy'n cyfrannu at ostyngiad mewn mewnforyn o'r ffynonellau hyn. Mae Haearn a Dur a Sment yn ddau sector ETS pwysig i Gymru, sy'n golygu bod yr effeithiau cyferbyniol o ran allyriadau a nodwyd yn y dadansoddiad hwn yn debygol o gael goblygiadau i ddiwydiant yng Nghymru.

6.37 Er bod rhywfaint o gynnydd mewn allyriadau mewnforyn gan gynhyrchwyr â phris carbon tebyg (ac felly codir cyfradd CBAM isel neu ddim cyfradd o gwbl ar nwyddau) yn debygol, mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif bod yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'r mewnforyn newydd hyn yn sylweddol is ac yn cael eu gwrthbwysio a mwy gan y gostyngiad mewn haearn a dur carbon-uchel o'r tarddiadau mewnforyn blaenorol.

6.38 At hynny, mae ein rhagdybiaeth bod pob mewnforywr yn wynebu'r un meincnod o ran dwysedd allyriadau, yn golygu bod y newidiadau amcangyfrifedig mewn allyriadau mewnforyn yn cael eu llywio gan wahaniaethau mewn prisio carbon rhwng rhanbarthau yn unig. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, gallai gwahaniaethau mewn dwysedd allyriadau hefyd fod yn ffactor sylweddol o ran pennu'r gyfradd CBAM.

6.39 O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y dadansoddiad hwn, nid ydym yn trin y ffigurau hyn fel arwydd o'r canlyniadau disgwylidig. Fodd bynnag, maent yn ddefnyddiol i ddangos i ba raddau y mae newidiadau mewn allyriadau'n dibynnu ar sawl ffactor allweddol:

- a. Y gostyngiad canrannol mewn dyraniadau am ddim ar gyfer sector

penodol.

- b. Costau cydymffurfiaeth ETS y DU fel cyfran o gyfanswm y costau cynhyrchu. Hyd yn oed yn sgil newidiadau mawr o ran cysylltiad â phris carbon, os yw costau ymylol cydymffurfiaeth yn gymharol fach, yna gallai hyn gael effaith gyfyngedig iawn ar brisiau'r farchnad, ac felly ar gystadleurwydd rhyngwladol.
- c. Mantais gymharol gyfredol y DU o ran cynhyrchu.
- d. Argaeledd opsiynau lleihau carbon cost isel.
- e. A yw nwyddau a fewnforir yn wynebu pris carbon cyfatebol (naill ai drwy brisio carbon neu CBAM).

6.40 Yn ogystal, gallai fod effaith ar allyriadau hefyd yn sgil rôl CBAM yr UE. Er bod y gwaith modelu yn cyfrif am y gostyngiad mewn dyraniadau am ddim yn ETS yr UE yn unol â'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd, nid yw'n modelu CBAM yr UE, a allai effeithio ar newidiadau amcangyfrifedig o ran allyriadau mewnforio.

6.41 Ar wahân, gallai fod effeithiau ar allyriadau oherwydd newidiadau yn y farchnad allforio, ond ni allwn eu hamcangyfrif yn feintiol gan ddefnyddio'r model Cystadleurwydd Diwydiannol a Dadleoli Carbon Rhyngwladol (ICICL). Wrth i weithredwyr yn y DU weld eu dyraniadau am ddim yn gostwng, gallai costau ymylol uwch yn ymwneud â chydymffurfiaeth gael eu pasio ymlaen i brisiau uwch ar gyfer allforion y DU. Gallai hyn leihau cystadleurwydd rhyngwladol cwmnïau'r DU, addasu llif masnach, a lleihau allyriadau domestig. Gallai allforwyr y DU hefyd elwa ar fantais gystadleuol mewn marchnadoedd allforio gyda CBAM, er enghraifft yr UE. Fodd bynnag, mae'r effaith ar allyriadau'n debygol o fod yn amrywiol yn yr un modd, yn dibynnu ar ddwysedd allyriadau marchnadoedd sy'n gystadleuwyr, a allai wasanaethu allforion a ildwyd gan y DU.

6.42 Os oes gan farchnad sy'n gystadleuydd ddwysedd allyriadau is na'r DU, a chymryd bod y galw'n parhau'n gyson a bod popeth arall yn gyfartal, gallai hyn arwain at ostyngiad mewn allyriadau byd-eang net. Fel arall, byddai'r effaith groes yn ddisgwyliedig ar gyfer marchnad sy'n gystadleuydd ac sydd â dwysedd allyriadau uwch.

6.43 Serch hynny, gallai'r sectorau hynny yn y DU sydd â chyfrannau sylweddol o gynhyrchiant yn mynd i farchnadoedd allforio fod â chymhelliant mwy ar gyfer opsiynau lleihau carbon, os byddai hynny'n lleihau costau gweithredu yn yr hirdymor, i aros yn gystadleuol yn rhyngwladol. Bydd hyn yn dibynnu ar gost yr opsiynau lleihau carbon sydd ar gael. Mae'r effeithiau hyn yn ansicr dros ben ac yn debygol o fod yn amrywiol iawn rhwng pob sector.


6.44 Mae'r dadansoddiad enghreifftiol hwn, sy'n seiliedig ar waith modelu cystadleurwydd rhyngwladol, yn cynnig dirnadaeth ddefnyddiol o ran effeithiau posibl ar allyriadau, ac yn amlygu'r modd y gall canlyniadau amcangyfrifedig amrywio'n sylweddol ar draws sectorau yn dibynnu ar eu cyd-destun penodol.

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyn yn sensitif i'r fframwaith modelu cyffredin, rhagdybiaethau sector-benodol ar gyfer diwydiant, ac ansawdd y ffynonellau data cyfredol ar gyfer pob cyfuniad o wlad a sector.

6.45 Yn ogystal, o ystyried bod yr asesiad hwn yn cymryd bod unrhyw ddyraniadau am ddim a ildwyd o dan y cap ar ddiwydiant yn cael eu cadw gan yr Awdurdod yn y gronfa wrth gefn hyblyg, mae hyn yn lleihau cyfanswm nifer y lwfansau sydd ar led mewn perthynas â'r senario wrthffeithiol, sy'n debygol o arwain at brisiau carbon yn codi. Byddai hyn yn cael effaith ar bob sector ETS y DU, ac yn cynyddu'r cymhelliad datgarboneiddio y tu hwnt i gyfranogwyr sy'n gymwys i gael dyraniadau am ddim.

6.46 Er mwyn ystyried holl effeithiau ETS y DU ar allyriadau, rydym yn defnyddio Model y Farchnad Garbon (CMM) i asesu'r modd y mae newidiadau yng nghyfanswm y lwfansau sydd ar led yn effeithio ar gysylltiad â phris carbon, ac felly, gostyngiadau mewn allyriadau ar draws holl sectorau ETS y DU. Mae ffigur 2 y dangos yr effaith hon ledled y cyfnod dyrannu nesaf, mewn perthynas â senario wrthffeithiol.

Ffigur 2: Y newid amcangyfrifedig i allyriadau'r DU ledled holl gyfranogwyr ETS y DU oherwydd newid i ddyraniadau am ddim



6.47 Fel y dangosir, ac yn debyg i ddadansoddiad ICICL uchod, mae'r


Pecynnau sydd â'r gostyngiadau mwyaf mewn dyraniadau am ddim yn arwain at yr effeithiau mwyaf ar allyriadau. Disgwylir i Becynnau C, D ac E gael effeithiau tebyg iawn ar allyriadau, a hynny oherwydd eu tebygrwydd o ran effeithiau ar ddyraniadau am ddim. Mae gostyngiad cychwynnol llai i Becyn F, oherwydd y rôl a chwaraeir wrth i'r gwerthoedd meincnod cyfredol barhau yn 2027, gan leihau'r galw am lwfansau ar ocsiwn, ond mae'n dal i fyni i alinio â Phecyn E o 2028.

6.48 Mae'r canlyniad hwn yn hawdd ei ddeall, o ystyried bod y gostyngiad mewn dyraniadau am ddim yn gostwng cyfanswm y cyflenwad i'r farchnad mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan gynyddu ymdrech cyfranogwyr i leihau eu hallyriadau. Rydym yn defnyddio'r effeithiau hyn ar allyriadau ar gyfer yr arfarniad o'r dadansoddiad cost a budd.

Yr effaith ar allyriadau Cymru

6.49 Er mwyn brasamcanu gostyngiadau yn allyriadau Cymru, gallwn gymhwyso rhagdybiaeth syml: bod cyfran y gostyngiadau'n cyfateb yn uniongyrchol â chyfran allyriadau ETS pob cenedl. Gan fod Cymru'n gyfrifol am 14% o allyriadau'r ETS yn 2024, rydym yn cymryd bod Ffigur 3 yn priodoli 14% o'r gostyngiad mewn allyriadau cyffredinol i Gymru.

Ffigur 3: Dosrannwyd i Gymru: Newid amcangyfrifedig mewn allyriadau ledled holl gyfranogwyr yr ETS oherwydd newid mewn dyraniadau am ddim



6.50 Mae hwn yn ddull gweithredu gorsym, ac nid yw'n adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol mwy cynnil. Gallai Cymru brofi gostyngiadau mwy neu lai mewn allyriadau.

6.51 O ystyried y crynhoad o allyriadau'r ETS yng Nghymru – sydd i'w briodoli i raddau helaeth i nifer bach o weithfeydd – byddai'n rhy dybiannol neilltuo tebygolrwydd penodol i ganlyniadau. Byddai unrhyw ragdybiaethau'n dibynnu ar ymddygiadau dim ond llond llaw o safleoedd, gan wneud amcanestyniadau cyffredinoledig yn sensitif ac yn annibynadwy.

Dadansoddiad cost a budd

Tabl 10: Y rhestr o effeithiau â gwerth ariannol ac effeithiau ansoddol a ystyriwyd yn y dadansoddiad cost a budd

Effaith	Categori	Cwmpas	Disgrifiad
Effeithiau â gwerth ariannol			
Allyriadau carbon domestig	Â gwerth ariannol	Cymdeithas	Newidiadau mewn allyriadau carbon domestig sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant y DU yn sgil cymhellion datgarboneiddio a gostyngiad yn y cyflenwad cyfan o lwfansau
Costau ymylol lleihau carbon	Â gwerth ariannol	Busnes	Newidiadau mewn costau lleihau carbon oherwydd newidiadau mewn lefelau lleihau carbon
Effeithiau ansoddol			
Costau ymgyfarwyddo i fusnesau	Ansoddol	Busnes	Newidiadau mewn costau i fusnesau ar gyfer ymgyfarwyddo â newidiadau rheoleiddiol
Costau gweinyddol i lywodraeth	Ansoddol	Llywodraeth	Y newidiadau mewn costau gweinyddol y mae eu hangen i orfodi'r newidiadau polisi o ran dyraniadau am ddim
Allyriadau carbon rhyngwladol	Ansoddol	Cymdeithas	Newidiadau mewn allyriadau carbon rhyngwladol sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant y DU yn sgil cymhellion datgarboneiddio

Effeithiau anuniongyrchol	Ansoddol	Amrywiol	Effeithiau anuniongyrchol yn sgil newid posibl ym mhris ETS y DU
Galluogi manteision	Ansoddol	Amrywiol	Alinio rheolau dyraniadau am ddim ETS y DU ag ETS yr UE, gan alluogi manteision unrhyw drefniant cysylltu posibl yn y dyfodol
Ymgysylltu â'r farchnad	Ansoddol	Busnes	Mwy o gyfranogiad yn y prif farchnadoedd lwfansau a'r marchnadoedd lwfansau eilaidd yn sgil gostyngiad mewn lwfansau am ddim

Costau

6.52 Ceir yr amcangyfrifon cost â gwerth ariannol (i fusnes) gan ddefnyddio Model y Farchnad Garbon (CMM) i gyfrifo cyfanswm y newidiadau mewn costau lleihau ymylol.

6.53 Mae'r CCM (CMM v1, y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel CPM y DU) yn fodel gan yr Adran Diogeled Ynni a Sero Net (DESNZ) at ddiben asesu'r modd y gall newidiadau i ETS y DU effeithio ar werthoedd carbon a gostyngiadau mewn allyriadau. Amcangyfrifir gwerthoedd carbon yn y CMM fel y pwynt ecwilibriwm lle mae'r galw am ymdrechion lleihau carbon (yr ymdrech ofynnol) yn cyd-fynd â'r cyflenwad o ymdrechion lleihau carbon drwy ddefnyddio technolegau lleihau carbon.


6.54 Ni all y model hwn gynhyrchu canlyniadau'n benodol i Gymru.

6.55 Defnyddiwyd y model hwn yn helaeth yn asesiad effaith *Developing the UK ETS*. Felly, cyflwynir rhagor o wybodaeth am y rhagdybiaethau, y cyfyngiadau a chyfrifiadau'r model yno. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#).

6.56 Mae gostyngiad yn y cyflenwad cyfan o lwfansau, oherwydd gostyngiad yn lefel y dyraniadau am ddim, yn newid cromlin y cyflenwad cyfan o TS0 i TS1 yn Ffigur 4. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod cap tynnach yn golygu gostyngiadau ychwanegol mewn allyriadau, gan wthio cost ymdrechion lleihau carbon i fyny ar y cromlin costau lleihau carbon ymylol (MAC), yn ogystal â chynyddu cost ymdrechion lleihau carbon ac, felly, cost lwfansau.

6.57 Mae'r adran dywyll yn Ffigur 4 yn dangos y costau ymylol ychwanegol llawn ar gyfer ymdrechion lleihau carbon yr aethpwyd iddynt gan gyfranogwyr ETS y DU oherwydd y gostyngiad yn y cyflenwad cyfan o lwfansau.

Ffigur 4: Yr effaith enghreifftiol ar gostau lleihau carbon ymylol oherwydd gostyngiad mewn lwfansau am ddim



6.58 Ledled y pecynnau polisi, mae'r costau amcangyfrifedig â gwerth ariannol yn amrywio rhwng £2.7 biliwn a £5.2 biliwn dros gyfnod arfarnu 2025 – 2037.

6.59 Yn yr un modd â'r amcangyfrif o ran lleihau allyriadau, rydym yn cymhwyso sgalar syml ac yn cymryd bod busnesau Cymru'n ysgwyddo 14% o'r effaith ar gostau – gan adlewyrchu eu cyfran o allyriadau'r ETS – oherwydd y bydd y cynnydd ym mhris carbon yn digwydd mewn modd unffurf ledled marchnad y DU.

6.60 Mae hyn yn golygu bod y costau amcangyfrifedig â gwerth ariannol i Gymru, ledled y pecynnau polisi, yn amrywio rhwng £0.4 biliwn a £0.7 biliwn.

6.61 Mae'r asesiad canolog yn cymryd y bydd cynhyrchwyr sy'n cael llai o ddyraniadau am ddim yn amsugno'r costau cydymffurfiaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrynu lwfansau. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor bod pob lwfans yn cario'r un gost cyfle, p'un a yw'n cael ei ddyrannu'n rhydd neu ei gaffael drwy ocsiynau a masnachu. Fodd bynnag, os bydd cost gyffredinol y lwfansau'n cynyddu, gallai hynny arwain at ryw lefel o drosglwyddo costau i ddefnyddwyr – archwilir hyn ymhellach o dan 'Effeithiau anuniongyrchol'.

Manteision


6.62 Amcangyfrifir y manteision cymdeithasol â gwerth ariannol drwy luosi'r newid mewn allyriadau â gwerthoedd carbon DESNZ, ac yna cymhwyso'r gyfradd ddisgownt briodol a dachwyddyddion cynnyrch domestig gros 2025.

6.63 Amcangyfrifir y gwerthoedd hyn drwy ystyried y costau lleihau carbon yr eid iddynt i fodloni targedau allyriadau cyson Sero Net Llywodraeth y DU.⁶

Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV)

6.64 Yna ystyrir y gost breifat o leihau'r allyriadau hyn mewn perthynas â'r manteision i gymdeithas yn sgil y gostyngiadau mewn allyriadau. Mae Ffigur 5 yn cyflwyno'r Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) a'r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer pob pecyn polisi ledled y DU.

Ffigur 5: Effaith ganolog gyfan Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) a'r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer pob pecyn polisi (ledled y DU)



6.65 Yn seiliedig ar yr effeithiau â gwerth ariannol yn unig, mae pob pecyn polisi yn arddangos Gwerth Cymdeithasol Presennol Net positif yn y biliynau o bunnoedd. Mae hynny'n ganlyniad disgwyliedig, o ystyried bod y gost breifat o leihau allyriadau'n is na gwerth y gostyngiadau hynny mewn allyriadau i gymdeithas.


Tabl 11: Yr holl effeithiau â gwerth ariannol a amcangyfrifir i bob pecyn polisi o dan yr asesiad canolog

	Pecyn A	Pecyn B	Pecyn C	Pecyn D	Pecyn E	Pecyn F
Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV)	£13.2 biliwn	£8.4 biliwn	£10.3 biliwn	£9.9 biliwn	£10.1 biliwn	£9.8 biliwn
Manteision â gwerth	£18.4	£11.1	£13.8	£13.4	£13.6	£13.1

ariannol (arbedion o ran allyriadau)	biliwn	biliwn	biliwn	biliwn	biliwn	biliwn
Costau â gwerth ariannol (costau lleihau)	£5.2 biliwn	£2.7 biliwn	£3.5 biliwn	£3.4 biliwn	£3.5 biliwn	£3.3 biliwn
Cymhareb cost a budd	3.5	4.1	3.9	3.9	3.9	4.0

6.66 Dangosir y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net yn Ffigur 6. Er ei fod yn is yng Nghymru nac mewn rhannau eraill o'r DU, mae Gwerth Cymdeithasol Presennol Net positif o hyd i fynd â'r newidiadau hyn yn eu blaen.


Ffigur 6: Effaith gyfan y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net yn ôl rhanbarth i bob pecyn



6.67 Mae'r gwerthoedd hyn yn cymryd bod cyfanswm y gost lleihau ymylol yn cael ei dosbarthu ledled rhanbarthau yn ôl eu cyfran o allyriadau yn 2024, a bod manteision arbedion o ran allyriadau yn cael eu dosbarthu yn ôl maint y boblogaeth.

6.68 Yn sgil y gyfran gymharol uchel o allyriadau yng Nghymru a'i phoblogaeth lai, mae'r rhagdybiaethau hyn yn arwain at werth cymdeithasol presennol net cymharol fach i Gymru o gymharu â rhanbarthau eraill.

Ffigur 7: Effaith ganolog gyfan Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV) a'r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer pob pecyn polisi (Cymru)



Tabl 12: Yr holl effeithiau â gwerth ariannol a amcangyfrifir i bob pecyn polisi o dan yr asesiad canolog (Cymru)

	Pecyn A	Pecyn B	Pecyn C	Pecyn D	Pecyn E	Pecyn F
Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV)	£128 miliwn	£134 miliwn	£147 miliwn	£140 miliwn	£146 miliwn	£149 miliwn
Manteision â gwerth ariannol (arbedion o ran allyriadau)	£846 miliwn	£511 miliwn	£635 miliwn	£616 miliwn	£626 miliwn	£603 miliwn
Costau â gwerth ariannol (costau lleihau)	£718 miliwn	£373 miliwn	£483 miliwn	£469 miliwn	£483 miliwn	£455 miliwn

Cymhareb cost a budd	1.2	1.4	1.3	1.3	1.3	1.3
----------------------	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Sensitifrwydd

6.69 Os oedd costau a manteision lleihau allyriadau'n cael eu dosbarthu'n seiliedig ar y gyfran ranbarthol o allyriadau yn 2024, mae gwerthoedd cymdeithasol presennol net Cymru'n sylweddol uwch, fel y dangosir yn Nhabl 13.

Tabl 13: Yr holl effeithiau â gwerth ariannol a amcangyfrifir i bob pecyn polisi o dan yr asesiad canolog (Cymru) – y costau a'r manteision wedi'u dosbarthu yn ôl cyfran allyriadau Cymru

	Pecyn A	Pecyn B	Pecyn C	Pecyn D	Pecyn E	Pecyn F
Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV)	£1.8 biliwn	£1.2 biliwn	£1.4 biliwn	£1.4 biliwn	£1.4 biliwn	£1.4 biliwn
Manteision â gwerth ariannol (arbedion o ran allyriadau)	£2.5 biliwn	£1.5 biliwn	£1.9 biliwn	£1.8 biliwn	£1.9 biliwn	£1.8 biliwn
Costau â gwerth ariannol (costau lleihau)	£0.7 biliwn	£0.4 biliwn	£0.5 biliwn	£0.5 biliwn	£0.5 biliwn	£0.5 biliwn
Cymhareb cost a budd	3.5	4.1	3.9	3.9	3.9	4.0

6.70 Er bod amcangyfrif maint yr effeithiau hyn yn ein helpu i ddeall yr effeithiau cyffredinol disgwyliedig ar les, mae hefyd yn bwysig ystyried ffactorau heb werth ariannol a allai ddylanwadu ar y canlyniadau. Mae'r adrannau canlynol yn mynd i'r afael â rhai o'r effeithiau hynny.

Costau ymgyswrtio i fusnesau

6.71 Mae'r safbwynt polisi terfynol yn cyflwyno nifer o newidiadau sylweddol i'r polisi dyraniadau am ddim, sy'n golygu bod angen cyfnod i gyfranogwyr cymwys ymgyswrtio â'r addasiadau hyn.

6.72 Bydd faint o amser ymgysylltu sy'n ofynnol yn amrywio rhwng cyfranogwyr, a bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n profi effaith fwy ar eu gweithredoedd busnes gael mwy o amser i ddeall y newidiadau polisi. Yn ogystal, gallai fod angen i'r cyfranogwyr hyn ailwerthuso eu cynlluniau lleihau i bennu'r llwybr mwyaf priodol at gydymffurfiaeth.

6.73 Byddem yn disgwyl i gostau ymgysylltu dynnu oddi ar y gwerth cymdeithasol presennol net. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd o ran yr amser ymgysylltu i bob sector a'r ffaith bod disgwyl i'r costau hyn fod yn ddibwys o gymharu â'r effeithiau â gwerth ariannol, barnwyd ei bod yn anghymesur eu hasesu'n feintiol.

Costau gweinyddol i lywodraeth

6.74 Mae costau gweinyddol yn cyfeirio ar y costau hynny yr eir iddynt gan lywodraethau a rheoleiddwyr ar gyfer gweithredu a monitro ETS y DU.

6.75 Ni ddisgwylir i'r safbwynt polisi terfynol gael unrhyw effaith sylweddol ar y ffordd y mae llywodraethau a rheoleiddwyr yn ymgysylltu ag ETS y DU, ac felly disgwyliwn gostau gweinyddol ymylol iawn sy'n ddibwys mewn perthynas â'r effeithiau ac iddynt werth ariannol.

Allyriadau carbon rhyngwladol

6.76 Disgwylir i effeithiau uwch prisio carbon godi costau cydymffurfiaeth, a allai leihau cystadleurwydd rhyngwladol cymharol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cyfeiriad a maint yr effaith hon yn ddibynol iawn ar amodau'r farchnad a wynebwr gan bob sector. Yn seiliedig ar y dadansoddiad gan ICICL, rydym yn amcangyfrif ei bod yn ymarferol bosibl y gallai'r allyriadau sy'n gysylltiedig â mewnforyn ddisgyn, a hynny wedi'i lywio'n benodol gan faint y gostyngiadau mewn allyriadau yn y sector Haearn a Dur.

6.77 Wedi dweud hynny, mae'r DU (a Chymru) yn cymryd y pris fel y mae mewn llawer o farchnadoedd ac yn cynrychioli cyfran gymharol fach o allbwn diwydiannol byd-eang. O ganlyniad, er y gallai newidiadau mewn cystadleurwydd rhyngwladol arwain at newidiadau mewn allforion i mewn i'r DU (gan effeithio ar allyriadau sy'n gysylltiedig â defnydd y DU) neu newidiadau mewn allforion o'r DU (a allai effeithio ar allyriadau gan gynhyrchwyr rhyngwladol sy'n cyflenwi sectorau a wasanaethwyd yn flaenorol gan allforion y DU), mae'r graddau y mae'r newidiadau hyn mewn allyriadau yn wirioneddol ychwanegol yn dal i fod yn ansicr.

6.78 Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried bod y newidiadau mewn allyriadau rhyngwladol yn effaith bosibl sylweddol, nid yw'n ceisio eu moneteiddio o ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r model ICICL, cyfyngiadau cwrmpas rhannol yn unig heb allyriadau allforio, a'r her o ran ychwanegedd allyriadau.

6.79 Yn [Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Awdurdod](#), archwilir graddfa bosibl y risg o ddadleoli allforion, yn enwedig i sectorau CBAM y DU a allai fod yn fwy agored i ddadleoli carbon ac a fydd yn gweld eu dyraniadau am ddim yn cael

eu dileu'n gyflymach.

Galluogi manteision

6.80 Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu ETS y DU ac ETS yr UE⁷. I'r perwyl hwnnw, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar baramedrau ar gyfer cytundeb newydd. Mae'r DU a'r UE yn gweithio'n agos gyda'r UE i gytuno ar amserlen ar gyfer cysylltu negodiadau i geisio cyflawni cytundeb llwyddiannus.

6.81 Ar y cam hwn, mae ansicrwydd ynghylch sut olwg fyddai ar unrhyw gytundeb posibl yn y dyfodol, a sut y gallai hynny effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y polisi dyraniadau am ddim. Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau ynghylch safbwynt polisi terfynol y Rheoliad Dyraniadau Am Ddim wedi cael eu gwneud gyda chysylltiad posibl mewn golwg.

6.82 Ar y sail honno, bydd unrhyw safbwynt polisi terfynol sy'n hwyluso aliniad o ran y polisi dyraniadau am ddim rhwng ETS y DU ac ETS yr UE, ac felly'n hwyluso trefniant cysylltu llwyddiannus, yn galluogi manteision cysylltu. Gallai manteision cysylltu gynnwys y canlynol:

- Datgarboneiddio mwy effeithlon am y gost isaf posibl
- Marchnadoedd ETS mwy hylifol
- Esemptiad CBAM y DU/yr UE posibl
- Sicrwydd ynni
- Sicrwydd busnes a buddsoddi

6.83 Fodd bynnag, o ystyried bod hefyd nifer o benderfyniadau polisi eraill o fewn cwmpas negodiadau cysylltu, mae meintoli a dadansoddi'r manteision hynny y tu allan i gwmpas yr asesiad hwn.

Effeithiau anuniongyrchol

6.84 Fel y dangosir gan yr effeithiau arfarnu â gwerth ariannol, mae disgwyl i gostau lleihau ymylol (a chostau prynu lwfansau'r DU) gynyddu o dan bob senario, o ystyried yr effaith fwy o ran pris carbon.

6.85 Fodd bynnag, er bod y cynnydd uniongyrchol mewn costau cydymffurfiaeth yn cwmpo i ddechrau ar fusnesau, mae damcaniaeth economaidd yn awgrymu nad yw'r baich llawn – neu'r pwysfan – o reidrwydd yn aros gyda nhw. Gall busnesau drosglwyddo rhai o'r costau hyn ymlaen i aelwydydd drwy brisiau uwch.

6.86 Bydd y graddau y bydd y gost hon yn cael ei throsglwyddo i aelwydydd yn dibynnu ar ddynmeg y farchnad y mae'r busnes yn gweithredu ynddi (cystadleuaeth berffaith, cynnyrch unffurf, galw anelastig o ran pris). Yn yr un modd, mae hefyd yn gredadwy y gallai gostyngiad mewn costau ymylol yn sgil technolegau carbon isel mwy effeithlon leihau costau i ddefnyddwyr; er ein bod

yn disgwyl bod hyn yn annhebygol yn y byrdymor.

6.87 Wrth wynebu prisiau uwch, gallai defnyddwyr leihau eu galw, gan arwain at golledion o ran gwarged y defnyddiwr a gwarged y cynhyrchydd. Fodd bynnag, daeth adroddiad gwerthuso Cam I ETS y DU i'r casgliad y gallai'r sectorau mwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ei chael yn fwy heriol trosglwyddo costau cydymffurfiaeth ychwanegol i ddefnyddwyr⁸, oherwydd, yn eu hanfod, maent yn fwy agored i gystadleurwydd rhyngwladol felly byddai cynyddu'r gost yn peri risg o ran colli cystadleurwydd neu eu cyfran o'r farchnad. Am y rheswm hwn, roedd yn rhaid i ni ragdybio yn yr asesiad canolog y byddai unrhyw effeithiau anuniongyrchol yn fwy dwys i'r sectorau hynny yr ystyrir nad ydynt mewn cymaint o berygl o ddadleoli carbon.

6.88 Os yw'r cynnydd mewn costau'n ddigon i arwain at gyflenwad annichonadwy i'r farchnad, gallai'r gweithredwr ddewis rho'r gorau i weithredu, neu symud ei gynhyrchiant dramor, gan leihau maint sylfaen gynhyrchu ddiwydiannol y DU. Mae'r golled hon o ran cynhyrchiant ac felly elw i fusnes yn y DU yn golled bosibl o ran lles i gymdeithas, a allai gael ei dal gan gystadleuwyr rhyngwladol.

6.89 Oherwydd arwyddocâd posibl yr effeithiau hyn, gwnaethom ddefnyddio methodoleg arfarnu arall gydag ICICL i wirio canlyniadau ein hasesiad canolog o ran y safbwynt polisi terfynol.

6.90 Yn olaf, gallai gostyngiadau yn y cyflenwad cyfan o lwfansau godi prisiau carbon i holl gyfranogwyr ETS y DU. Felly, mae potensial am effeithiau anuniongyrchol ehangach i sectorau nad ydynt yn gymwys ar gyfer dyraniadau am ddim, gan gynyddu costau ac, o bosibl, godi prisiau i ddefnyddwyr.

Ymgysylltu â'r farchnad

6.91 O ystyried y gostyngiad mewn dyraniadau am ddim, galli hyn arwain at fwy o ymgysylltiad gan weithredwyr yn y prif marchnadoedd lwfansau a'r marchnadoedd lwfansau eilaidd. Gallai hyn gynnwys gweithredwyr yn ymgysylltu am y tro cyntaf neu gynydd yn lefel yr ymgysylltiad, sef dau beth a allai olygu costau amser i fusnesau. Mae'r effeithiau â gwerth ariannol yn cymryd bod dyraniadau am ddim yn cario'r un gost cyfle â lwfansau a arwerthir, gan awgrymu y bydd busnesau'n prynu ac yn gwerthu lwfansau ni waeth sut y cawsant eu caffael. Mae'r rhagdybiaeth hon yn dibynnu ymhellach ar senario o wybodaeth berffaith, lle mae gan yr holl gyfranogwyr wybodaeth gyflawn am eu costau lleihau carbon ymylol ac nad ydynt yn wynebu unrhyw gostau trafodiadau wrth fasnachu.

6.92 Yn ymarferol, nid yw'r rhagdybiaethau hyn yn debygol o fod yn gywir, a allai arwain at fwy o gostau. Er na allwn feintoli'r costau posibl hyn, mae disgwyl iddynt fod yn gymharol fach o gymharu â'r costau lleihau carbon ymylol neu'r costau llawn ar gyfer prynu lwfansau.

Effeithiau heb werth ariannol

6.93 Yn seiliedig ar yr asesiad uchod, mae Tabl 14 yn crynhoi effeithiau

posibl pob effaith heb werth ariannol.


Tabl 14: Asesiad meintiol o'r effaith i bob effaith heb werth ariannol

Asesu ansoddol	
Costau ymgyfarwyddo i fusnesau	Dibwys
Costau gweinyddol i lywodraeth	Dibwys
Allyriadau carbon rhyngwladol	Ansicr, ond peth tystiolaeth i awgrymu cadarnhaol
Galluogi manteision	Cryf a chadarnhaol (amodol)
Effeithiau anuniongyrchol	Ansicr, ond mae'n debygol o fod yn negyddol
Ymgysylltu â'r farchnad	Negyddol

Effeithiau rhanbarthol

6.94 Mae cyfranogwyr ETS y DU sy'n gymwys i gael dyraniadau am ddim wedi'u dosbarthu ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â rhai gweithredwyr alltraeth. O fewn rhanbarthau, yn aml ceir clystyrau gwahanol o weithgarwch sector. Mae Ffigur 8 yn dangos dosbarthiad y dyraniadau am ddim yn ôl sector a lleoliad daearyddol yn 2024.

Ffigur 8: Dyraniadau am ddim yn ôl sector diwydiant a lleoliad daearyddol, 2024.



6.95 O ganlyniad, disgwylir i effeithiau newidiadau mewn dyraniadau am ddim amrywio ledled rhanbarthau. Mewn rhanbarthau sydd â chrynhoad uwch o sectorau sydd ag opsiynau lleihau carbon cymharol cost isel, gall fod mewnllif mwy o drosglwyddiadau economaidd yn sgil gwerthu lwfansau i sectorau sy'n wynebu costau lleihau carbon uwch. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y trosglwyddiadau hyn, ac o gofio bod yr arfarniad canolog wedi cael ei gynnal ar lefel y DU, nid ystyriwyd ei bod yn briodol ymgorffori'r trosglwyddiadau hyn mewn dadansoddiad ar gyfer rhanbarthau penodol.

Cyfiawnhad dadansoddol dros y safbwynt polisi terfynol

6.96 Mae Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ynghylch y Rheoliad Dyraniadau Am Ddim yn rhoi eglurhad cynhwysfawr o'r rhesymeg strategol ar gyfer pob opsiwn polisi a gynhwysir ym **Mhecyn F**, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r safbwynt polisi terfynol.

6.97 Mae'r dadansoddiad o Becyn F yn cyflwyno achos economaidd clir dros y safbwynt hwn, a disgwylir i'r effeithiau fod yn gadarnhaol ac yn fawr, yn bennaf oherwydd gwerth sylweddol gostyngiadau mewn allyriadau, ond gan nodi peth ansicrwydd ynghylch maint a chyfeiriad effeithiau heb werth ariannol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, dewiswyd y safbwynt hwn hefyd gyda chysylltiad posibl rhwng ETS y DU ac ETS yr UE mewn golwg.

6.98 Byddai unrhyw opsiwn polisi sy'n cefnogi amcan strategol y DU o gynnal aliniad er mwyn hwyluso cysylltiad posibl yn y dyfodol yn galluogi manteision cysylltu. Dylid nodi y bydd polisi dyraniadau am ddim y DU mewn marchnad gysylltiedig yn amodol ar negodiadau, byddwn yn rhoi rhagor o ddiweddariadau ynghylch cysylltu negodiadau ar adegau priodol.

6.99 O'r fan hon ymlaen, bydd yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn ystyried dadansoddiadau sy'n berthnasol i'r safbwynt polisi terfynol yn unig.

Ansicrwydd

6.100 I weld yr asesiad llawn o ansicrwydd, cyfeiriwch at [Asesiad Effaith yr Awdurdod Cyfan](#).

6.101 Isod ceir crynodeb o'r modd y cafodd ansicrwydd ei brofi a'r hyn y dangosodd pob prawf o ran canlyniadau ledled y DU.

Tabl 15: Risgiau, cyfyngiadau a tybiaethau

Maes Ansicrwydd	Disgrifiad o'r prawf	Canfyddiadau Allweddol	Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (NPSV)
Y Cap Ar Ddiwydiant [Polisi ETS y DU ar ôl 2030]	Lleihau'r cap 20% o 2030 ymlaen	Ffactor Cywiro Trawstoriadol (CSCF) wedi'i ysgogi yn 2036 – flwyddyn yn gynt na'r senario wrthffeithiol; y polisi terfynol yn osgoi'r CSCF llai o ansicrwydd o ran dyraniadau am ddim	Canolog: £9.8 biliwn Cap isel ar ddiwydiant: £7.0 biliwn
Cronfa wrth Gefn Hyblyg [Polisi ETS y DU ar ôl 2030]	40 miliwn yn llai o lwfansau yn y gronfa wrth gefn ar ôl 2030	Y CSCF wedi'i ysgogi erbyn 2033 yn y senario wrthffeithiol; sensitifrwydd uchel i risg y gronfa wrth gefn; risg o ran sefydlogrwydd y farchnad	Canolog: £9.8 biliwn Cronfa wrth gefn hyblyg lai o faint: £1.2 biliwn
Costau Lleihau Carbon Ymylol – technoleg lleihau carbon yn y dyfodol	Cromliniau cost uchel a chost isel wedi eu cymhwyso	Costau uwch yn gostwng ymdrechion lleihau carbon a'r NPSV; costau is yn cynyddu'r ddau ohonynt	Canolog: £9.8 biliwn Cost lleihau carbon ymylol uchel: £8.5 biliwn Cost lleihau carbon ymylol isel: £11.4 biliwn

Gweithgarwch y farchnad	Wedi profi lefelau gweithgarwch uchel ac uchel iawn	Gallai'r dyraniadau am ddim fod yn fwy na'r cap ond digon o lwfansau ar gael; ni chyfrifwyd NPSV amgen	
Arfarniad o Werthoedd Carbon	Defnyddiwyd gwerthoedd carbon uchel ac isel DESNZ	Yn adlewyrchu gwerth cymdeithasol gostyngiadau mewn allyriadau	Canolog: £9.8 biliwn Arfarnu gwerthoedd carbon uchel: £16.4 biliwn Arfarnu gwerthoedd carbon isel: £3.3 biliwn
Meincnodi	Cymhwyswyd trothwyon uchaf/isaf y cyfraddau gostwng blynyddol (ARR) i drothwyon y DU	Effeithiau sectoraidd dyraniadau am ddim yn amrywio; y dull gweithredu canolog yn cwmpo yn yr ystod ganol	Canolog: £9.8 biliwn ARR uchaf: £7.1 biliwn ARR isaf: £12.1 biliwn
Tuedd Optimistaidd	Addaswyd y manteision/costau $\pm 20\%$	Y NPSV yn dal yn bositif ledled pob achos	Manteision -20%: £7.2 biliwn Costau +20%: £9.2 biliwn Y ddau: £6.5 biliwn
Newid Gwerthoedd	Aseswyd y newid gofynnol o ran y NPSV ar gyfer lles negatif net	Gallai costau heb werth ariannol arwain at effaith negyddol >£9.8 biliwn (canolog) neu >£3.3 biliwn (gwerth carbon isel)	
Effeithiau Anuniongyrchol (ICICL)	Defnyddiwyd model ICICL fel dewis arall i asesu'r effeithiau ar les	Enillion lles net o £4 biliwn; yn cadarnhau'r achos cadarnhaol er gwaethaf y fethodoleg wahanol	

Asesiad o'r gystadleuaeth

6.102 Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar fusnesau, yn enwedig yn sgil dileu'r dyraniadau am ddim. Mae'r costau meintioledig a gyflwynir yn cyfeirio'n benodol at effeithiau ar fusnes, a chynhaliwyd y ffocws hwn yn gyson drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

6.103 Disgwylir i'r effaith ar fusnesau fod yn negyddol, gan adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir mewn prisiau carbon a'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgyswrtio a chydymffurfiaeth.

6.104 Mae ETS y DU yn fecanwaith prasio carbon sydd â'r nod o fynd i'r afael ag allanoldeb negyddol allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gymhwyso'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu". Felly, er ei bod yn debygol bod y newid polisi hwn yn cyflwyno costau ychwanegol i rai busnesau, maent yn rhan gydnabyddedig o'r broses o bontio i economi carbon isel.